PWYLLGOR PENODI - PRIF GYFREITHYDD CYFREITHIWR

DYDD LLUN, 11 CHWEFROR 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd (Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Derbyshire, Weaver a/ac Williams |

1 : PENODI CADEIRYDD

Penodwyd y Cynghorydd Chris Weaver yn Gadeirydd y Pwyllgor.

2 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Carter a'r Cynghorydd Mackie.

3 : DATGAN BUDDIANNAU

Doedd dim datganiadau buddiannau yn y cyfarfod hwn.

4 : CYLCH GORCHWYL

Nodwyd y Cylch Gorchwyl fel a ganlyn: -

*"Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â phenodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Brif Swyddogion (fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth statudol y Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Cyflogaeth ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill y Cyngor".*

5 : SWYDDOGAETH Y SWYDD

Nodwyd Swyddogaeth a Chymwyseddau'r Swydd.

6 : EITHRIO'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Y dylid eithrio'r cyhoedd yn ystod y drafodaeth ynglŷn â'r eitem fusnes ganlynol ar y sail y datgelid gwybodaeth a eithrir, fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y'i diffinnir isod, i aelodau'r cyhoedd pe byddent yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes i'w drafod. -

Paragraff 12 – Gwybodaeth ynghylch ymgeisydd a fydd yn dod yn gyflogai i'r Awdurdod; a

Paragraff 13 – Gwybodaeth oedd yn debygol o ddatgelu hunaniaeth yr unigolyn.

7 : PENODI PRIF GYFREITHIWR YMGYFREITHA

Dygwyd y Pwyllgor Penodi ynghyd i ystyried rhestr hir yr ymgeiswyr ar gyfer penodi Prif Gyfreithiwr Ymgyfreitha.

Adolygodd y Pwyllgor un deg saith o geisiadau a gyflwynwyd ar gyfer y swydd hon ac ystyriodd sut oedd ymgeiswyr yn bodloni'r galluoedd hanfodol o'r Fframwaith Galluoedd Ymddygiadol a'r proffil rôl; a nodwyd yr ymgeiswyr hynny a oedd i fynd ymlaen i'r Ganolfan Asesu.

PENDERFYNWYD – Bod Ymgeiswyr 5,8,9 ac 11 yn cael eu cynnig i fynd ymlaen i'r asesiad sydd i'w gynnal yn yr wythnos yn dechrau 25 Chwefror 2019.

8 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – DYDD LLUN 4 MAWRTH 2019 AM 1:30PM YN YSTAFELL BWYLLGOR 2.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.40 pm